Annwyl Gwsmer

**Cau dros dro**

**Gwasanaeth Swyddfa'r Post Sarnau**
**Y Swyddfa Bost, Sarnau Villa, Sarnau, Llanymynech, SY22 6QJ**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod fod y Postfeistr o Swyddfa Bost Sarnau, yn anffodus, wedi penderfynu rhoi’r gorau i redeg y gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y lleoliad uchod. Felly, bydd gwasanaeth Swyddfa'r Post Sarnau yn dod i ben o 17:30 ddydd Iau 9 Tachwedd 2023, am na fydd yr adeilad ar gael i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost.

Yn ogystal, bydd gwasanaeth Allgymorth Swyddfa'r Post yn Arddlîn, Llanymynech, SY22 6RU, sydd ar hyn o bryd yn cael ei redeg gan y postfeistr hwn, yn dod i ben, o 13:00 ddydd Iau 9 Tachwedd 2023. Hoffem ymddiheuro am y cau ac unrhyw anhwylustod y gallai ei achosi.

Mae Swyddfa'r Post yn wynebu cyfnod arbennig o anodd, yr un fath â mân-werthwyr eraill y stryd fawr. Mae effaith costau cynyddol, chwyddiant a chyfyngiadau ar ein cyllido gan Lywodraeth yn golygu er y byddwn wastad yn ystyried ailagor canghennau sydd yn cau, ni allwn ymrwymo i wneud hynny bob tro. Rydym wedi ymrwymo i gynnal ein meini prawf o ran hygyrchedd drwy wneud yn siŵr fod 99% o boblogaeth y DG o fewn tair milltir i Swyddfa Bost a bod 90% o fewn milltir. Byddwn yn dal i adolygu'r sefyllfa hon a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy’n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen ac yn yr ardal leol i roi gwybod i gwsmeriaid.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu’r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a’ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy’n digwydd i’r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylustod a allai ddigwydd oherwydd y cau. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae’r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae’r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ddarparu gwasanaeth yn yr ardal leol yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa’r Post Cyfyngedig.

postoffice.co.uk

Sut i gysylltu â ni:
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Canghennau eraill**

**Mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau.**
**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn**
**www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn lle Swyddfa Bost Sarnau**

Gall cwsmeriaid ddal i ddefnyddio unrhyw gangen Swyddfa'r Post arall ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau bob dydd Swyddfa'r Post.

Isod, er hwylustod i chi, fe welwch fanylion canghennau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal y gallech eu defnyddio:

---

**Swyddfa Bost Four Crosses**
Garej Four Crosses
Llanymynech
SY22 6RE

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Sadwrn | 07:30 – 18:00 |
| Dydd Sul | 08:00 – 13:00 |

**Gwasanaethau**

Mae'r gangen hon yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau, ond nid Treth Cerbyd.

**Mynediad**

Mae gan y gwasanaeth hwn fynedfa wastad a drysau llydan awtomatig.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.4 milltir o gangen Sarnau, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Nid oes unrhyw wasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn a changen Sarn; fodd bynnag gall cwsmeriaid yn eu cerbydau hunain barcio ar y cwrt y tu allan i'r gangen.

---

**Swyddfa Bost Cegidfa**
Cegidfa
Y Trallwng
SY21 9PP

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Sadwrn | 07:00 – 19:45 |
| Dydd Sul | 08:00 – 19:45 |

**Gwasanaethau**

Mae'r gangen hon yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau, ynghyd ag Arian Teithio Ewros Ar Gais, ond nid Treth Cerbyd.

**Mynediad**

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a ramp â chanllaw wrth y fynedfa.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.6 milltir o gangen Sarnau, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Nid oes unrhyw wasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn a changen Sarnau; fodd bynnag gall cwsmeriaid yn eu cerbydau hunain barcio yn y gilfan y tu allan i'r gangen a gerllaw.

---

**Gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn lle Swyddfa Bost Arddlîn**

Gall cwsmeriaid ddal i ddefnyddio unrhyw gangen Swyddfa'r Post arall ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau bob dydd Swyddfa'r Post.
Isod, er hwylustod i chi, fe welwch fanylion canghennau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal y gallech eu defnyddio:

---

**Swyddfa Bost Four Crosses**
Garej Four Crosses
Llanymynech
SY22 6RE

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Sadwrn | 07:30 – 18:00 |
| Dydd Sul | 08:00 – 13:00 |

**Gwasanaethau**
Mae'r gangen hon yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau, ond nid Treth Cerbyd.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon fynedfa wastad a drysau llydan awtomatig.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gangen Swyddfa'r Post hon tua 2.3 milltir o wasanaeth Allgymorth Arddlîn, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae modd parcio ar y cwrt blaen y tu allan i'r gangen.
Mae yna wasanaeth bws cyfyngedig rhwng y gangen hon a gwasanaeth Allgymorth Arddlîn.
Mae'r arhosfan bysiau agosaf wrth Gofeb Ryfel Four Crosses.

---

**Swyddfa Bost Llandrinio**
Llandrinio
Llanymynech
SY22 6SB

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Gwener | 09:00 – 18:00 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 – 13:00 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Gwasanaethau**
Mae'r gangen hon yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal ag Arian Teithio Ewros Ar Gais, Treth Cerbydau, Yswiriant Teithio Ar Gais a'r Loteri Genedlaethol.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan awtomatig ac mae ramp â chanllaw wrth y fynedfa.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gangen Swyddfa'r Post hon tua 2.6 milltir o wasanaeth Allgymorth Arddlîn, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae modd parcio ar y cwrt blaen y tu allan i'r gangen.
Mae yna wasanaeth bws cyfyngedig rhwng y gangen hon a gwasanaeth Allgymorth Arddlîn.
Mae'r arhosfan bysiau agosaf 110 metr i ffwrdd.

---

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **<u>Hysbysu</u>** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk.**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon; Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol; Cynghorwyr Ward; Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf; elusennau dethol; Cyngor ar Bopeth lleol; Age UK; Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.